Pwyllgor Menter a Dysgu

EL(3) 12-07(p2) : 28 Tachwedd 2007

Cylch Gorchwyl ymchwiliad y Pwyllgor i Gyfraniad Economaidd Addysg Uwch

Ystyried natur cysylltiad strategol Sefydliadau Addysg Uwch â busnesau yng Nghymru a thu hwnt a'u heffaith ar eu heconomïau lleol a rhanbarthol ac wrth ddatblygu dadansoddiadau economaidd rhanbarthol, yn benodol:

Llwyddiant y SauAU wrth sicrhau cyllid o nifer o wahanol ffynonellau, gan gynnwys defnyddio Cronfeydd Strwythurol Ewrop, sydd yn effeithio ar yr economïau lleol a rhanbarthol;

I ba raddau y mae addysg mentrau wedi'i hymsefydlu mewn SauAU Cymru; sut mae mesur a gwerthuso'r llwyddiant a pha fathau a lefelau o gychwyniad sydd i raddedigion drwy Gymru;

Y ffordd y mae SauAU yn gallu cyfrannu at yr agenda sgiliau, y cydweithio a wneir gyda sefydliadau cyflogwyr, Cynghorau Sgiliau Sector ac undebau llafur, ac a ydyn nhw'n cwrdd ag anghenion busnesau;

Y cyfle sydd i gydweithio â'r sector Addysg Bellach yn dilyn adolygiadau Leitch a Webb;

Y symud tuag at uno a chydweithio rhwng SauAU a sut mae hyn yn effeithio ar eu heconomïau lleol a rhanbarthol;

Cyfraniadau ehangach prifysgolion i'w hardaloedd, megis gwaith cymunedol, cyfraniadau diwylliannol, symudedd a marchnadoedd myfyrwyr a graddedigion a gwella mynediad a chyfranogiad.